Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Uned Addysg Marlowe St David's

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  09/08/2016**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol fach ar gyfer bechgyn a merched rhwng saith a deunaw oed yw Ysgol Marlowe St David's. Mae’r ysgol mewn lleoliad gwledig yng ngogledd Sir Benfro. Perchennog yr ysgol yw Marlowe Child and Family Services Ltd, a nhw sy’n ei rheoli hefyd. Fe’i hagorwyd yn 2000.

Mae’r ysgol wedi ei chofrestru i dderbyn hyd at 20 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae 15 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae tua hanner y disgyblion yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae wyth disgybl yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Mae gan naw disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r holl ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae’r ysgol yn cyflogi tri athro amser llawn ac un athro rhan-amser ar hyn o bryd. Ceir tri dosbarth, ac fe gaiff disgyblion eu rhoi mewn grwpiau yn unol â’u hoedran a’u gallu.

Mae’r perchennog wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau rheoli o fewn trefniadaeth ehangach y cwmni yn ddiweddar. Ymunodd pennaeth dros dro â’r ysgol ym Mai 2016 i gyflenwi tra bydd y perchennog yn ymgymryd â phroses recriwtio i benodi pennaeth parhaol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae staff yn creu awyrgylch cyfforddus nad yw’n fygythiol sy’n rhoi hyder i ddisgyblion ac yn eu hannog i ymgysylltu ag addysg.
- Mae disgyblion yn foesgar a chwrtais at ymwelwyr.
- Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio proffesiynol cadarnhaol.
- Ers iddo gyrraedd, mae’r pennaeth dros dro wedi gweithio’n gyflym i asesu cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae wedi dechrau adolygu a diweddaru dogfennau’r ysgol. Er enghraifft, mae wedi adolygu a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu’r ysgol yn briodol.
- Mae’r ysgol yn cynnal asesiad gwaelodlin addas o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau ac yn cynnal cofnodion cynhwysfawr o ddisgyblion.
- Mae digon o le yn yr adeilad, ac fe gaiff ei gynnal yn dda. Mae’n darparu amgylchedd dysgu addas hefyd.

## Meysydd i'w datblygu

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau blaenorol Estyn. Felly, nid oes llawer wedi newid o ran argymhellion yr arolygiad hwn.
- Er bod polisïau'r ysgol wedi bodloni'r rheoliadau angenrheidiol mewn arolygiadau blaenorol, yn ystod yr ymweliad hwn, nid oedd yr ysgol yn gallu darparu'r copïau diweddaraf. Mae angen diweddaru ac adolygu llawer o bolisïau'r ysgol i sicrhau eu bod yn cyfeirio at y personél cywir a'u bod yn benodol i'r ysgol. Mae rhai polisïau yn cynnwys manylion amherthnasol.
- Mae polisi cwricwlwm yr ysgol yn rhy fyr. Nid yw'n darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth ym mhob cyfnod allweddol nac yn nodi'r gofynion ar gyfer cynllunio. Nid yw'n glir sut, nac os, caiff y polisïau ar gyfer llythrennedd a rhifedd eu rhoi ar waith.
- Mae staff yn cofnodi asesiadau risg ar gyfer ymweliadau a gweithgareddau oddi ar y safle. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr bob amser yn llofnodi a dyddio'r ffurflenni i gymeradwyo'r gweithgareddau.
- Mae'r polisi cymorth cyntaf yn rhy fyr ac nid yw'n rhoi arweiniad digon buddiol i staff, er enghraifft ar sut i ddelio â gollyngiadau neu'r polisi ar gyfer rhoi meddyginiaethau. Nid oes unrhyw wybodaeth am gynnwys pecynnau cymorth cyntaf.
- Nid yw cofrestr derbyniadau'r ysgol yn eglur ac nid yw'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen, er enghraifft rhyw disgyblion, a'u dyddiadau gadael.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

A2 Sicrhau bod yr holl bolisïau yn gyfoes, yn benodol i'r ysgol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

A3 Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi targedau clir a hygyrch ar gyfer gwella

A4 Datblygu system rheoli perfformiad fwy addas sy'n canolbwyntio ar safonau a lles

A5 Dadansoddi data disgyblion yn fwy effeithiol i lywio cynllunio

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod blaenoriaethau strategol allweddol yn cael eu bodloni mewn modd amserol**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r ysgol wedi bod yn araf iawn yn gwneud gwelliannau angenrheidiol. Mae wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol.

Nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu meysydd strategol allweddol i'w datblygu yn ddigon da. Mae'r nodau a'r amcanion yn aneglur ar y cyfan, ac nid yw meini prawf llwyddiant yn benodol. O ganlyniad, mae'n anodd i staff wybod beth yn union a ddisgwylir a ph'un a gyflawnwyd nodau ac amcanion. Mae meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio ar ddarpariaeth yn bennaf, a dim digon ar ddeilliannau disgyblion.

Nid yw'r adroddiad yn cynnwys graddfeydd amser clir ar gyfer cwblhau camau gweithredu, nac ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu. O ganlyniad, ni chaiff blaenoriaethau eu bodloni mewn modd amserol.

**Argymhelliad 2: Sefydlu trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer pob aelod o staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system i reoli perfformiad staff sydd wedi ei seilio ar weithdrefnau ehangach y cwmni. Fodd bynnag, mae'r system yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan fod rheolwyr yn cydnabod ei bod yn rhy gymhleth ac nid yw'n briodol mewn lleoliad ysgol.

Mae'r pennaeth neu athro cymheiriaid yn cynnal arsylwadau gwersi ac yn gwneud cofnod ffurfiol o'u barnau, ond nid oes rhaglen reolaidd o arsylwadau.

Er bod yr arsylwadau hyn yn gyffredinol yn nodi meysydd i'w gwella yn y wers, nid oes digon o ffocws ar safonau disgyblion. Ni chaiff y wybodaeth ei defnyddio'n dda fel rhan o'r system rheoli perfformiad, er enghraifft i osod targedau i wella safonau ac addysgu. Nid yw'n glir a oes unrhyw weithgarwch dilynol i ystyried cynnydd staff o ran gwella eu harfer yn yr ystafell ddosbarth.

Trwy'r system rheoli perfformiad, mae staff yn nodi anghenion hyfforddi, ond mae'r rhain yn gysylltiedig â materion gweithredol ar y cyfan, er enghraifft iechyd a diogelwch.

**Argymhelliad 3: Defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a llywio'r cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi dechrau casglu ystod o ddata disgyblion unigol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am oedrannau darllen a sillafu disgyblion yn ogystal â'u cynnydd ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Caiff data ar oedrannau darllen a sillafu ei gyflwyno'n glir ar ffurf graff. Mae hyn yn galluogi staff i nodi'r cynnydd y mae disgyblion wedi ei wneud.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ystod eang o bynciau bob tymor. Mae gan ddisgyblion set o dargedau ar gyfer pob pwnc. Ceir cofnodion clir o b'un a yw disgyblion yn gweithio tuag at eu targedau, yn bodloni eu targedau neu'n rhagori ar eu targedau.

Fodd bynnag, nid yw staff yn dadansoddi data yn ddigon da naill ai ar lefel disgybl unigol na lefel ysgol gyfan, er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Nid ydynt yn defnyddio data yn effeithiol i lywio cynllunio.

**Argymhelliad 4: Ymweld â darparwyr eraill i arsylwi ar arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ychydig iawn o gyfleoedd y mae staff wedi eu cael i ymweld ag ysgolion lleol eraill i arsylwi arfer dda. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cysylltiad defnyddiol ag ysgol y perchennog yng Nghaerloyw.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gael polisi ar y cwricwlwm wedi ei nodi'n ysgrifenedig a'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i roi ar waith yn effeithiol. [1(2)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol sy'n ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru [3(2c)]

- darparu a gweithredu polisi ysgrifenedig boddhaol ar Gymorth Cyntaf [3(6)]
- cynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Uned addysg Marlowe St David's |
| **Rhif yr ysgol** | 6686014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 06/06/2016 |
| **Perchennog** | Steve Miller, Prif Weithredwr<br>Marlowe Child & Family Services Ltd<br>PO Box 283<br>Gloucester<br>GL19 3YE |
| **Staff** | 3 athro amser llawn<br>1 athro rhan-amser<br>6 o gynorthwywyr addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 15 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig; anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol; anawsterau dysgu cymedrol; anawsterau dysgu penodol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/02/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/02/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 00/00/0000 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |